# Agenda - Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5**

Dyddiad: Dydd Iau, 13 Gorffennaf 2023

Amser: 08.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Manon George**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddTai@senedd.cymru

## (Rhag-gyfarfod - 08.45 - 09.00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol - Tystiolaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

(9.00 - 10.00) (Tudalennau 1 - 30)

Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Elaina Chamberlain - Pennaeth Democratiaeth, Amrywiaeth a Chydnabyddiaeth Ariannol, Llywodraeth Cymru

Lisa James - Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Polisi Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru

## 3 Papurau i'w nodi

(Tudalen 31)

**3.1 Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip - Darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr**

(Tudalennau 32 - 34)

**3.2 Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol - Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24**

(Tudalennau 35 - 37)

**3.3 Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at Lywodraeth y DU - Cydsyniad Deddfwriaethol: y Bil Rhentwyr (Diwygio)**

(Tudalen 38)

3.4 **Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Ardrethi Annomestig**

(Tudalennau 39 – 42)

3.5 **Gwybodaeth ychwanegol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Amrywiaeth mewn llywodraeth leol**

(Tudalennau 43 – 45)

3.6 **Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol – Amserlen Ddrafft Gyllideb 2024-25**

(Tudalennau 46 – 48)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(10.05)

## (Egwyl 10.05 – 10.15)

## 5 Trafod y Flaenraglen Waith ar gyfer tymor yr Hydref

(10.15 – 10.45) (Tudalennau 49 – 53)

## 6 Sector Rhentu Preifat - ymagwedd at ymgysylltu

(10.45-11.00) (Tudalennau 54 – 56)

## 7 Amrywiaeth mewn llywodraeth leol – Trafod y dystiolaeth a materion o bwys

(11.00-12.00)

**Llywodraeth Cymru – Papur Tystiolaeth – Ymchwiliad Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd i Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol.**

**1. Asesu'r cynnydd a wnaed i wella amrywiaeth mewn llywodraeth leol ers pasio Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac unrhyw effaith amlwg ar ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiad.**

1.1 Roedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Deddf 2021) yn cynnwys darpariaethau i hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad, bod yn agored, amrywiaeth ac atebolrwydd mewn democratiaeth leol. Mae'r rhain yn cynnwys:

**Rhannu swydd - Aelodau Gweithrediaeth Prif Gynghorau**

1.2 Mae nifer o gynghorau wedi sefydlu trefniadau rhannu swydd. Mae'r adborth yn gadarnhaol ac mae'n awgrymu na fyddai rhai aelodau mewn sefyllfa i ymgymryd â rôl mewn gweithrediaeth heb y cyfle i rannu swydd. Roedd Deddf 2021 yn darparu ar gyfer cynyddu uchafswm nifer aelodau gweithrediaeth o 10 i 13 er mwyn caniatáu ar gyfer hyd at 3 threfniant rhannu swydd. Fodd bynnag, mater i bob gweithrediaeth yw ystyried faint o swyddi i'w rhannu fydd yn cael eu creu, o ystyried y cyngor a'r angen i graffu'n effeithiol.

**Rhannu swydd - aelodau nad ydynt yn rhan o'r weithrediaeth**

1.3 Roedd Deddf 2021 yn darparu ar gyfer ymestyn trefniadau rhannu swydd i uwch-rolau nad ydynt yn rhan o'r weithrediaeth, fel cadeiryddion pwyllgorau. Mae trafodaethau gyda llywodraeth leol wedi tynnu sylw at ddau faes allweddol y mae angen eu hystyried ymhellach yn fanwl, sef:

- y dull gweithredu i'w ddefnyddio o ran pleidlais fwrw lle mae partneriaid rhannu swydd yn ymgymryd â rôl y Cadeirydd ac nad ydynt yn cytuno ar eu safbwynt.
- amgylchiadau a allai effeithio ar drefniadau cydbwysedd gwleidyddol pwyllgorau.

1.4 Mae papur ymgynghori'n cael ei baratoi i geisio barn ar y canlynol:

- y trefniadau presennol ar gyfer gweithrediaeth;
- ymestyn y ddarpariaeth rhannu swydd i drefniadau y tu allan i'r weithrediaeth;
- y potensial i bartneriaid rhannu swydd sefyll ar docyn ar y cyd mewn etholiad.

**Cyfarfodydd aml-leoliad**

1.5 Mae'n bwysig cydnabod yr heriau y mae cynghorau'n eu hwynebu wrth weithredu'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd aml-leoliad neu hybrid. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau i'w seilweithiau TG, gwella sgiliau aelodau o ran defnyddio offer newydd, newid diwylliant a cholli cyfleoedd rhwydweithio i aelodau. Fodd bynnag, mae adborth gan swyddogion ac aelodau yn nodi manteision cyfarfodydd rhithwir a hybrid, gan gynnwys:

- cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n mynychu cyfarfodydd cyngor - mae hyn yn cynnwys aelodau, y cyhoedd a'r cyfryngau.

- lleihad yn yr angen i deithio i aelodau, i'r cyhoedd ac i'r cyfryngau a hynny o fudd i'r amgylchedd ac iechyd, lles a diogelwch unigolion, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf.
- gwelliant yn ymddygiad aelodau mewn cyfarfodydd
- gwelliant yn y ffordd y mae cyfieithu Cymraeg wedi cael ei gynnwys mewn cyfarfodydd.

1.6 Gall cynghorau bennu dull cyfarfodydd unigol yng ngoleuni'r amgylchiadau ar y pryd. Mae'n ofynnol hefyd i gynghorau tref a chymuned sefydlu trefniadau ar gyfer cyfarfodydd hybrid ar y sail bod cyfranogwyr yn gallu clywed a chael eu clywed. Felly, cysylltiad ffôn yw'r unig beth sy'n ofynnol.

**Darlledu**

1.7 Ar hyn o bryd mae'n ofynnol i Brif Gynghorau ddarlledu cyfarfodydd byw o'r cyngor llawn a sicrhau bod y recordiadau ar gael ar eu gwefan. Mae hyn yn galluogi mwy o bobl i gael mynediad at drafodion y cyngor. Mae llawer o gynghorau yn mynd y tu hwnt i'r gofyniad hwn ac yn darlledu cyfarfodydd eraill, neu'n recordio cyfarfodydd ac yn gosod y recordiadau hynny ar-lein. Mae hyn yn galluogi democratiaeth leol i gyrraedd mwy o bobl, gyda golwg ar gymryd rhan fel dinesydd a allai wedyn arwain at ddiddordeb mewn sefyll fel aelod.

1.8 Mae ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i'r cwestiwn a ddylid mynnu bod cyfarfodydd eraill yn cael eu darlledu'n fyw ac, os felly, pa rai. Bydd angen i unrhyw estyniad i'r gofyniad i ddarlledu'n fyw gyd-fynd â barn y cyhoedd ynghylch a) mantais ymestyn y darpariaethau a b) y meysydd y mae ganddynt y mwyaf o ddiddordeb ynddynt. Mae angen cydbwyso hyn â sicrhau nad yw unrhyw estyniad ar draul gwaith allgymorth lle gallai cyfarfodydd gael eu cynnal mewn canolfannau cymuned neu ysgolion. Mae angen cydbwyso ehangu â phragmatiaeth, tra bod gwaith yn cael ei wneud i ganfod ffyrdd o greu mwy o hyblygrwydd lleol. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ar y camau nesaf cyn diwedd y flwyddyn.

1.9 Darparwyd dros £850,000 i brif gynghorau i gefnogi'r gwaith o sefydlu cyfarfodydd aml-leoliad ac ar gyfer darlledu. Ar ben hynny, mae £150,000 ar gael i ariannu'r gwaith o gyflwyno cynllun gweithredu i ddarparu cymorth digidol i gynghorau cymuned a thref i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â chyfarfodydd hybrid. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Un Llais Cymru, Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, a'r Prif Swyddog Digidol ar gyfer Llywodraeth Leol i gyflawni'r cynllun hwn.

**Absenoldeb Teuluol**

1.10 Roedd y darpariaethau a gyflwynwyd gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn golygu mai Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i wneud darpariaeth ar gyfer absenoldeb teuluol i brif gynghorwyr, gan gydnabod yr angen i unigolion allu cydbwyso eu rolau fel cynghorwyr â chyfrifoldebau teuluol. Arweiniodd y newidiadau a weithredwyd yn Neddf 2021 at gynnydd yn y cyfnod ar gyfer absenoldeb mabwysiadwyr, o 2 i 26 wythnos. Mae hyn yn golygu bod pob rhiant mabwysiadol yn

awr gallu cymryd yr un faint o absenoldeb teuluol i'w galluogi i ddarparu amgylchedd cefnogol a meithringar i'w plant yng nghyfnodau cynnar datblygu perthynas a bondio.

**Pleidleisio**

1.11 Mae pobl ifanc 16 a 17 oed nawr yn cael pleidleisio a chael llais ar faterion hollbwysig sy'n effeithio ar eu dyfodol. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau rhwng cylchoedd etholiadol i sicrhau bod y sgwrs am gyfranogiad yn parhau. Mae hyn yn hanfodol er mwyn annog mwy o bobl ifanc nid yn unig i bleidleisio ond hefyd i gymryd rhan mewn democratiaeth leol naill ai fel dinasyddion neu aelodau etholedig. Rydym wedi darparu £300,000 ar gyfer 23/24 a 24/25 drwy ein Grant Ymgysylltu Democrataidd i wella ymgysylltiad democrataidd. Mae'r cyllid hwn wedi'i anelu at y trydydd sector, sefydliadau nid-er-elw ac awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n gallu dangos bod angen cyllid i fynd ar drywydd dull arloesol o ymgysylltu â phobl sydd wedi'u tangynrychioli, pobl sydd newydd gael yr hawl i bleidleisio, a phobl anabl mewn democratiaeth.

**Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd**

1.12 Mae'n ofynnol i brif gynghorau annog pobl leol i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ac mae ganddynt ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi strategaeth cyfranogiad y cyhoedd, a ddatblygwyd ar y cyd â chymunedau. Mae'r 'ddyletswydd cyfranogi' yn ymwneud yn benodol â chymryd rhan ym mhrosesau democrataidd y cyngor, gan gydnabod dimensiwn democrataidd cynghorau sy'n benodol ac yn rhan annatod o'u cyfansoddiad. Mae'n canolbwyntio ar gynnal cyfranogiad, ymddiriedaeth a diddordeb y cyhoedd mewn democratiaeth yn y blynyddoedd rhwng etholiadau. Y gobaith yw y bydd hyn hefyd yn ffordd o godi ymwybyddiaeth o rôl cynghorwyr ac annog ymgeiswyr i ddod ymlaen drwy ymgysylltu dinesig ehangach.

**Cyfeiriadau swyddogol**

1.13 Erbyn hyn, mae'n ofynnol i brif gynghorau gyhoeddi cyfeiriad electronig a chyfeiriad post i bob aelod o'r cyngor ar gyfer gohebiaeth. Gall hwn fod yn gyfeiriad swyddogol yn hytrach na chyfeiriad cartref. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau diogelwch personol aelodau etholedig ac mae wedi cael ei groesawu.

**Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol a Phwyllgorau Safonau**

1.14 Mae'n bwysig nid yn unig annog ymgeiswyr o wahanol gefndiroedd i sefyll mewn etholiad ond hefyd sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi pan gânt eu hethol. Mae'r darpariaethau hyn yn gosod dyletswydd ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol i gynnal y safonau ymddygiad uchaf ymysg eu grŵp gwleidyddol, i Bwyllgorau Safonau eu cefnogi i wneud hynny ac i gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n nodi sut y cyflawnir hyn.

1.15 Gwelwyd yn yr arolwg diweddaraf o gynghorwyr enghreifftiau eang o fwlio ac ymddygiad sarhaus ac amhriodol tuag at gynghorwyr, a hynny gan gyd-aelodau

etholedig, y cyhoedd a swyddogion. Rydym yn gweithio'n agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru i hyrwyddo hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad a gweithredu'r newidiadau i'r Fframwaith Safonau Moesegol ("y Fframwaith") ac i annog arweinwyr grwpiau gwleidyddol i fod yn rhagweithiol eu hunain wrth ymdrin ag achosion o fynd yn groes i'r Cod, a'u hatal. Mae hon yn ddyletswydd newydd, a byddwn am weld sut mae'n cael ei gweithredu o fewn cynghorau a pha effaith y mae'n ei chael ar ymddygiad. Rydym hefyd wedi comisiynu nifer o fideos byr am y Fframwaith, ac maent i'w gweld yma ar:

Safonau ymddygiad ar gyfer cynghorwyr yng Nghymru

Cyngor ar sut i gwyno am gynghorydd yng Nghymru

Sut dylai cynghorwyr ymddwyn ac ymwneud â phobl

**Cynorthwywyr i'r Weithrediaeth**

1.16 Mae Deddf 2021 yn galluogi cabinetau i benodi cynorthwywyr i'r weithrediaeth. Mae hyn yn galluogi cynghorwyr i gael profiad o fod mewn swydd uwch heb ymrwymiad amser llawn.

**Canllawiau Statudol ac Anstatudol**

1.17 Ar y cyd â llywodraeth leol, mae nifer o ddarnau o ganllawiau wedi cael eu hailysgrifennu ochr yn ochr â datblygu canllawiau newydd i gefnogi'r gwaith o weithredu'r darpariaethau hyn yn Neddf 2021. Roedd hyn yn cynnwys diweddaru'r canllawiau mewn perthynas â hyfforddiant a chefnogaeth i aelodau etholedig i'w galluogi i gadw cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

1.18 Cafodd y canllawiau cyfunol i brif gynghorau yng Nghymru eu cyhoeddi ar 15 Mehefin 2023.

**2. Ystyried y cynnydd o ran gweithredu argymhellion adroddiad 2019 y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar amrywiaeth mewn llywodraeth leol.**

2.1 Cafodd llawer o'r argymhellion yn adroddiad 2019 eu cynnwys yng ngham dau Rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth Llywodraeth Cymru.  Gwnaed nifer o ddatganiadau ar y gwaith hwn yn amlinellu camau gweithredu a chynnydd.

Datganiad Ysgrifenedig: Cam dau – Amrywiaeth mewn Democratiaeth – 19 Gorffennaf 2019
Datganiad Ysgrifenedig: Cam Dau – Cynllun Gweithredu'r Rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth – 25 Medi 2020.
Datganiad Ysgrifenedig: Amrywiaeth mewn Democratiaeth – Diweddariad – 8 Gorffennaf 2022

2.2 Cafodd argymhellion eraill sylw drwy Ddeddf 2021 a chyfeirir atynt uchod. Rwy'n nodi rhagor o wybodaeth am y gweddill isod.

**Sefydliadau'r Sector Cyhoeddus yn annog eu gweithwyr i fod yn gynghorwyr**

2.3 Anfonwyd llythyr ar y cyd â'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i holl sefydliadau'r sector cyhoeddus ledled Cymru ym mis Tachwedd 2022, i'w hannog i hyrwyddo rôl cynghorwyr yn eu sefydliadau, gan dynnu sylw at bwysigrwydd cynghorwyr a'r rôl maen nhw'n eu chwarae yn ein cymunedau, a hefyd gofyn iddyn nhw ystyried ffyrdd o gefnogi eu gweithwyr i fod yn gynghorwyr. Ychydig o adborth a gafwyd ac mae angen ymchwilio ymhellach. Rwyf hefyd yn manteisio ar gyfleoedd i annog sefydliadau eraill i gefnogi unigolion yn eu gweithlu.

**Adran 106 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

2.4 Ysgrifennodd Gweinidogion Cymru at Lywodraeth y DU ym mis Gorffennaf 2020 i ofyn am gychwyn y ddarpariaeth hon. Yn ei hymateb, cadarnhaodd Llywodraeth y DU y bydd yn parhau i adolygu Adran 106 ac yn parhau i annog pleidiau gwleidyddol i adrodd yn wirfoddol.

**Ymestyn y Cymal Machlud yn Neddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw (Ymgeiswyr Etholiadol) 2002**

2.5 Yn yr un ohebiaeth y cyfeirir ati uchod, cododd Gweinidogion Cymru y mater hwn. Yn ei hymateb, dywedodd Llywodraeth y DU fod y ddeddfwriaeth bresennol eisoes yn darparu i bleidiau allu defnyddio'r strategaeth hon tan 2030, felly nid yw'n ystyried hwn yn fater brys y mae angen rhoi sylw iddo.

**Y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig** – gweler yr adran ar wahân.

**Arolwg Ymgeiswyr**

2.6 Ers 2011, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i awdurdodau lleol fonitro cydraddoldeb ac amrywiaeth ymgeiswyr sy'n ceisio cael eu hethol i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned a thref drwy arolwg ymgeiswyr. Gellir gofyn cwestiynau am rywedd, cyfeiriadedd rhywiol, iaith, hil, oedran, anabledd, crefydd neu gred, iechyd, addysg neu gymhwyster, cyflogaeth, a gwaith fel cynghorydd.

2.7 Roedd y gyfradd ymateb i arolwg 2022 yn siomedig, gyda'r gyfradd ymateb ar gyfer ymgeiswyr Sirol yn 15% ac ar gyfer ymgeiswyr Cymunedol yn 11%. Pwrpas yr arolwg yw deall nodweddion yr ymgeiswyr, a'r rheini sy'n cael eu hethol yn gynghorwyr; a deall sut mae proffil y grŵp hwn yn newid dros amser.

2.8 Roedd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol yn cynnig dileu'r gofyniad i nodi geiriad penodol yr arolwg mewn rheoliadau (is-ddeddfwriaeth) a fydd yn ei gwneud yn haws newid cwestiynau'r arolwg wrth i bolisi ddatblygu. Roedd cytundeb cyffredinol â'r cynnig hwn yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Yn y dyfodol, bwriedir i'r arolwg gynnwys set graidd o gwestiynau Cymru gyfan a rhoi cyfle i brif gynghorau ychwanegu cwestiynau gyda'r nod o ddarparu gwybodaeth am gynlluniau lleol.

**Ymgynghoriad ar newidiadau i'r Fframwaith Moesegol**

2.9 Mae fframwaith moesegol effeithiol yn hanfodol i sicrhau bod gan bobl a chynghorwyr o bob cefndir yr hyder i ymwneud â democratiaeth leol neu sefyll am swydd etholedig. Mae'n rhan o wneud Cymru'n genedl amrywiol a chynhwysol ac mae ei adolygu yn gam gweithredu yn ein Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

2.10 Ym mis Mawrth 2021, comisiynodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar y pryd adolygiad annibynnol o'r Fframwaith ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

2.11 Daeth yr Adolygiad i'r casgliad bod y fframwaith presennol yn 'addas i'w ddiben' a'i fod yn gweithio'n dda yn ymarferol. Fodd bynnag, awgrymodd y gallai rhai newidiadau arwain at roi mwy o bwyslais yn y Fframwaith ar atal cwynion a sicrhau bod safonau moesegol yn cael eu gwella ymhellach. Rydym wedi ymgynghori ar ymateb arfaethedig Llywodraeth Cymru i argymhellion yr adolygiad annibynnol. Mae dolen at y ddogfen ymgynghori ar gael yn: Argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol (adroddiad Richard Penn) | LLYW.CYMRU

2.12 Ar hyn o bryd, rwy'n ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a byddaf yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a datganiad ar y camau nesaf maes o law.

**3. Archwilio gwaith ymchwil a dadansoddi sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru, cyrff partner ac eraill ar yr amrywiaeth ymgeiswyr a chanlyniadau yn dilyn etholiadau lleol 2022.**

3.1 Roedd y **gwerthusiad o Amrywiaeth mewn Democratiaeth** yn 2019 yn tynnu sylw at ddiffyg dealltwriaeth ymysg y cyhoedd o rôl cynghorwyr, a'r cyfraniad pwysig maent yn ei wneud ar ran cymunedau. Gan adeiladu ar y gwerthusiad hwnnw, ers hynny yr ydym wedi cynnal **adolygiad tystiolaeth** o sut y mae cydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr yng Nghymru yn cymharu â gwledydd eraill, ac **arolwg o agweddau'r cyhoedd**. Hefyd, **arolwg ar-lein o gynghorwyr yng Nghymru**. Cafwyd dros 1,600 o ymatebion gan gynghorwyr prif gynghorau a chynghorwyr cymuned a thref, a chasglwyd cyfoeth o wybodaeth am bynciau fel dylanwad tybiedig cynghorwyr, llwyth gwaith, tâl, ac ymddygiad ac agweddau tuag at gynghorwyr. Hefyd, cynhaliwyd rhaglen ymchwil Chwalu'r rhwystrau i swyddi etholedig ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig: damcaniaeth newid a oedd yn edrych ar dangynrychiolaeth grwpiau â nodweddion gwarchodedig mewn gwleidyddiaeth leol a chenedlaethol yng Nghymru.

3.2 Cafodd canlyniadau'r darn hwn o ymchwil eu hystyried yn ystod cyfres o ddigwyddiadau i randdeiliaid a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2022 ac ym mis Ionawr 2023, ac mae'r canlyniadau a'r ymatebion hyn cyfrannu at gamau nesaf ein hagenda i gynyddu amrywiaeth mewn llywodraeth leol.

**4. Archwilio cynlluniau a sefydlwyd i hyrwyddo a galluogi mwy o amrywiaeth ymysg y rhai sy'n sefyll mewn etholiad, gan gynnwys y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig.**

41. Un o'r camau allweddol i alluogi mwy o amrywiaeth ymysg y rhai sy'n sefyll mewn etholiad oedd cyflwyno'r cynllun peilot Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru. Roedd ar gael i helpu pobl anabl i sefyll mewn etholiad yn etholiadau'r

Senedd ym mis Mai 2021 a'r etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022. Cafodd chwech o'r unigolion a dderbyniodd gymorth eu hethol yn llwyddiannus, pob un i gynghorau cymuned.

4.2 Roedd y Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol yn cynnwys cynnig i "ddeddfu i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal 'Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig' sydd ar gael ar gyfer pob etholiad datganoledig cyffredin ac is-etholiad yng Nghymru". Roedd cefnogaeth eang i'r cynnig hwn a chadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol, mewn datganiad yn y Senedd ar 16 Mai 2023, fwriad Gweinidogion Cymru i ddeddfu i sicrhau bod cronfa ar gael ar gyfer etholiadau yn y dyfodol.

4.3 Cyhoeddir gwerthusiad annibynnol o'r gronfa cyn bo hir a disgwylir iddo gefnogi parhau â'r gronfa a gwella ei threfniadau yng Nghymru.

4.4 Mae gwybodaeth a gasglwyd o'r ymchwil a wnaed, adborth o'r peilot (y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig) a'r digwyddiadau amrywiaeth yn awgrymu efallai na fydd y trefniadau presennol mewn perthynas â'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig, fel y mae, yn cyflawni'r canlyniad a ddymunir ar gyfer pob grŵp o bobl â nodweddion gwarchodedig yr ydym am eu cyrraedd. Felly, rydym yn ystyried trefniadau ac opsiynau darparu i sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu ac y bydd mor effeithiol ag y gall fod i bob grŵp. Bydd y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig ar gyfer pobl ag anableddau yn parhau yn y dyfodol.

4.5 Yn gysylltiedig â'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig mae datblygu rhwydwaith ar gyfer pobl anabl sydd am sefyll am swydd etholedig. Byddai hyn yn adeiladu ar y cynllun presennol y mae'r gwaith ymchwil a gwerthuso yn ei ystyried yn sylfaenol i lwyddiant trefniadau yn y dyfodol. Byddaf yn ymchwilio i hyn ymhellach.

**5. Archwilio meysydd arloesi ac arfer da a allai helpu i gynyddu amrywiaeth mewn llywodraeth leol.**

**Cynghorau Cymuned**

5.1 Yn dilyn etholiadau mis Mai 2022, roedd hi'n amlwg bod mwy o waith i'w wneud i sicrhau cyfranogiad gweithredol mewn cynghorau cymuned a thref. Dangosodd y canlyniadau mai dim ond 22% o'r 7,883 o seddi a gafodd eu hymladd. Roedd 62% o'r seddi'n ddiwrthwynebiad. Roedd 16% o'r seddi heb eu llenwi, i gael eu llenwi drwy etholiad pellach neu drwy gyfethol. Nodwyd dau fater allweddol – y cyntaf oedd sicrhau bod gan bobl ddewis gwirioneddol o ran pwy sy'n eu cynrychioli ac yn eu gwasanaethu. Roedd yr ail yn ymwneud â sicrhau bod pobl yn teimlo bod cymryd rhan yn y lefel hon o ddemocratiaeth yn ffordd o greu newid ac y byddent am gyflwyno'u hunain i gael eu hethol.

5.2 Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Iechyd Democrataidd wedi'i sefydlu, gyda'r ffocws ar wella ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad rhwng cymunedau a'u cynghorau cymuned, a hefyd i gynyddu nifer ac amrywiaeth yr ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiadau i gynghorau tref a chymuned. Cyfarfu'r grŵp ar 8 Mehefin 2023 a disgwylir adroddiad drafft erbyn mis Chwefror 2024 yn cynnwys opsiynau i alluogi Gweinidogion Cymru i ystyried y camau nesaf yn

y maes hwn

**Ffactorau economaidd-gymdeithasol**

5.3 Cyn bo hir byddaf yn comisiynu ymchwil i edrych ar sut mae ffactorau economaidd-gymdeithasol yn effeithio ar allu unigolyn i gymryd rhan mewn democratiaeth leol a sefyll am swydd etholedig, beth yw'r rhwystrau a sut y gellid mynd i'r afael â nhw yn y dyfodol. Bydd hyn yn adeiladu ar Adolygiad o dystiolaeth am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau canlyniadau (crynodeb)

**Cam-drin ymgeiswyr / cynghorwyr**

5.4 Bwriadaf ddod â phartneriaid allweddol at ei gilydd i archwilio beth arall y gallem ei wneud gyda'n gilydd i fynd i'r afael â cham-drin mewn gwleidyddiaeth, oherwydd mae hyn yn gofyn am ddull system gyfan sy'n adeiladu ar syniadau presennol wrth ddatblygu dulliau gweithredu newydd. Mae angen i ni i gyd godi llais y erbyn bwlio ac aflonyddu, nad oes lle iddynt mewn cymdeithas nac mewn siambrau cyngor. Fodd bynnag, fel rhan o'n gwaith, byddwn yn ceisio arfogi unigolion â'r sgiliau a'r gefnogaeth i reoli sefyllfaoedd anodd os byddant yn codi. Bydd hyn yn cynnwys ystyried hyfforddiant cadernid, canllawiau gweithio ar eich pen eich hun a rheoli perthnasoedd digidol.

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

**13 Gorffennaf 2023 – clawr y papurau i'w nodi**

| Rhif y papur | Mater | Oddi wrth | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| Papur 2 | Darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr Cyllideb Llywodraeth Cymru 2022-23 | Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip | I'w nodi |
| Papur 3 | Cyllideb Llywodraeth Cymru 2022-23 | Y Pwyllgor Cyllid | I'w nodi |
| Papur 4 | Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Rhentwyr (Diwygio) | Y Gweinidog Newid Hinsawdd | I'w nodi |
| Papur 5 | Y Bil Ardrethu Annomestig | Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol | I'w nodi |
| Papur 6 | Amrywiaeth ym maes llywodraeth leol | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | I'w nodi |
| Papur 7 | Cyllideb Llywodraeth Cymru 2022-23 | Y Pwyllgor Cyllid | I'w nodi |

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

26 Mehefin 2023

Annwyl John,

**Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr**

Diolch am eich llythyr ynglŷn â'r cyllid a ddyrannwyd i'r Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ac ymddiheuraf am yr oedi cyn ymateb.

Gallaf eich sicrhau o'n hymrwymiad parhaus cadarn i sicrhau bod llety digonol sy'n ddiwylliannol-briodol ar gael i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr drwy safleoedd awdurdodau lleol a safleoedd preifat. Mae'r gofynion ar awdurdodau lleol i baratoi Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ac adrodd ar yr angen am safleoedd a lleiniau ychwanegol yn eu hardal, gan gynnwys lleiniau tramwy parhaol a dros dro, wedi hen ennill eu plwyf. Serch hynny, mae'r broses wedi amlygu'r heriau sylweddol sy'n wynebu cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.

Yn 2021-22 roedd gennym gyllideb o £3.5 miliwn ac yn 2022-23 roedd gennym gyllideb o £3.690 miliwn ar gyfer y Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Fodd bynnag, mae'r gyllideb honno wedi gostwng i £3.29 miliwn ar gyfer 2023-24, ond nid yw hynny'n adlewyrchu diffyg cefnogaeth i'r cymunedau hyn ond yn hytrach y nifer isel sy'n manteisio ar y grant. Mae hyn yn bennaf oherwydd yr ystod o heriau sy'n wynebu awdurdodau lleol o ran datblygu safleoedd. Diben y grant yw adnewyddu llety presennol, adeiladu lleiniau newydd a gwella cynaliadwyedd safleoedd i breswylwyr. Mae ceisiadau yn dod i law ac yn cael eu cytuno fel rhan o raglen dreigl. Rydym yn parhau i sicrhau bod awdurdodau lleol ledled Cymru yn ymwybodol o'r grant. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, nid yw'r grant naill ai wedi'i ddefnyddio'n llawn neu mae'r grantiau hynny sydd wedi'u rhoi yn y lle cyntaf wedi'u gohirio oherwydd nad yw'r gwaith adeiladu wedi'i orffen gan olygu nad oes modd i'r awdurdodau lleol gwblhau'r hawliadau grant.

Ers creu'r ddyletswydd i nodi a diwallu'r angen am lety priodol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, mae dros ddau gant o leiniau newydd naill ai wedi'u creu neu eu hadnewyddu, ac mae llawer ohonynt ar safleoedd teuluol preifat bach. Mae hyn yn cymharu â dim ond llond llaw o leiniau newydd a grëwyd rhwng 1997 a 2014.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Fodd bynnag, rwy’n ymwybodol, er bod cynnydd da wedi’i wneud pan gyflwynwyd y Ddeddf am y tro cyntaf, nad yw’r cynnydd hwnnw wedi’i gynnal yn fwy diweddar ym mhob rhan o Gymru. Ar ôl cyflwyno deddfwriaeth a rhoi cyllid sylweddol i fynd i’r afael â’r angen, rydym yn pryderu, mewn rhai achosion, fod cynlluniau wedi arafu ers sawl blwyddyn ac nad oes digon o gynnydd wedi’i wneud i fynd i’r afael ag anghenion y cymunedau hyn o ran safleoedd.

Rwy’n deall bod cynigion am safleoedd newydd, ac am welliannau hyd yn oed, yn aml yn gymhleth a bod angen trafodaeth â’r gymuned, a bod penderfyniadau weithiau’n destun her. Mae hyn yn golygu y gallai cynlluniau am safleoedd newydd neu welliannau i safleoedd presennol weithiau gymryd peth amser i’w datblygu cyn i geisiadau cynllunio a grant gael eu gwneud.

Fodd bynnag, er gwaetha’r heriau hynny, rydym yn disgwyl i bob awdurdod lleol yng Nghymru sicrhau bod safleoedd a lleiniau digonol yn cael eu darparu i ddiwallu anghenion cymunedau Sipsiwn ledled Cymru. Rwy’n disgwyl gweld asesiadau cywir o anghenion a chamau gweithredu clir ynghylch sut i ddiwallu’r anghenion hynny er mwyn ymdrin â’r bylchau sy’n bodoli. Mae’r ddarpariaeth bresennol ar gyfer safleoedd parhaol a thramwy yn bell o fod yn ddigonol i ateb y gofynion ac ni all hyn barhau.

Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu cadernid yr asesiadau ar draws Cymru i fodloni’r gofynion o ran safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Mae swyddogion yn cydweithio ag awdurdodau lleol a chymunedau Sipsiwn a Theithwyr i weld maint yr anghenion ac er mwyn deall yr hyn sy’n dal i rwystro cynnydd. Byddaf yn ysgrifennu at bob awdurdod lleol i rannu canlyniad yr asesiadau hynny. Yn ddiweddar, rwyf wedi cyfarfod â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac arweinwyr cabinet y cynghorau sy’n arwain ar gydraddoldeb i helpu i ddeall yr heriau hynny’n well a cheisio cytuno i gydweithio ledled Cymru i sicrhau bod darpariaeth ddigonol o safleoedd yn flaenoriaeth ar gyfer safleoedd parhaol a thramwy.

Unwaith y bydd hyn wedi’i gwblhau, byddaf yn cyfarfod ar sail ranbarthol yn ogystal ag ar sail ddwyochrog i adolygu bylchau yn y ddarpariaeth ac ymateb awdurdodau lleol. Byddaf yn edrych ar y camau sydd angen eu cymryd i oresgyn unrhyw rwystrau sy’n parhau i fodoli, ac yn gofyn am gadarnhad o’u hymrwymiad i sicrhau darpariaeth ddigonol o safleoedd parhaol a thramwy ledled Cymru i ddiwallu anghenion cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn unol â’r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Bydd hwn yn gyfle defnyddiol i’w hatgoffa am y grant gan Lywodraeth Cymru fel offeryn pwysig ar gyfer bwrw ymlaen â gwaith i wella safleoedd a chreu rhai newydd.

O ystyried yr heriau, mae ymgysylltu gweithredol gan Lywodraeth Cymru yn bwysig wrth symud pethau ymlaen. Mae camau’n cael eu cymryd ar hyn o bryd i gryfhau’r tîm er mwyn gallu ymgysylltu’n sylweddol â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn ogystal ag ymgysylltu ag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill.

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Rebecca Evans AS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

23 Mehefin 2023

Annwyl Rebecca,

**Dogfennaeth sy'n cyd-fynd â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru**

Yn ein hadroddiad ar graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, daethom i'r casgliad a ganlyn:

> *"Casgliad 1. Rydym yn croesawu parodrwydd y Gweinidog i ystyried ffyrdd y gellir gwella dogfennaeth y gyllideb. Er ein bod wedi adlewyrchu ein barn uchod, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu ymgynghori â phwyllgorau'r Senedd ar eu profiadau o graffu ar ddogfennaeth y gyllideb eleni a ffyrdd y gellir gwneud gwelliannau."*

Anfonwyd llythyr wedi hynny at Gadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd ar 8 Mawrth 2023, a oedd yn gofyn y cwestiwn hwn:

> *"Pa welliannau yr hoffech eu gweld o ran y ddogfennaeth sy'n cyd-fynd â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru a thystiolaeth ysgrifenedig ddilynol gan y Gweinidog?"*

Cawsom ymatebion gan Gadeiryddion y pwyllgorau a ganlyn ac mae'r holl ymatebion wedi'u cyhoeddi ar wefan y Senedd:

- Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
- Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
- Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
- Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
- Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
- Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

Roedd yr ymatebion yn nodi nifer o themâu cyffredin a meysydd lle y gellid gwneud gwelliannau i broses y gyllideb. Ceir crynodeb o'r rhain isod:

### Amseroldeb

Fel pwynt cyffredinol, nododd nifer o'r Pwyllgorau fod y duedd yn y blynyddoedd diwethaf o gyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft yn ddiweddarach yn y flwyddyn, gan arwain at gwtogi amserlen y gyllideb, wedi'i gwneud yn heriol i asesu effaith y Gyllideb Ddrafft yn ystyrlon ar y meysydd polisi o fewn eu cylchoedd gwaith. Roedd rhai pwyllgorau o'r farn bod hwn yn wendid allweddol sy'n amharu'n sylweddol ar allu'r Pwyllgorau i ystyried cynigion cyllidebol yn fanwl.

### Tryloywder

Roedd llawer o'r Pwyllgorau yn teimlo y gallai Llywodraeth Cymru fod yn fwy tryloyw yn y ffordd y mae'n cyflwyno ei gwybodaeth yn y Gyllideb Ddrafft. Yn benodol, teimlai'r Cadeiryddion y dylid nodi'n glir effaith penderfyniadau cyllidebol ar feysydd polisi o fewn cylch gwaith pob Pwyllgor.

Mae hyn yn adleisio Argymhelliad 13 yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2023-24 a oedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud newidiadau i'r ffordd y mae'n cyflwyno gwybodaeth mewn dogfennau a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft fel ei bod yn darparu:

- asesiad o effaith penderfyniadau gwariant ar draws portffolios, gan gynnwys effaith ymarferion ailflaenoriaethu ac eglurder ar effaith penderfyniadau mewn portffolios mewn termau real; ac
- asesiad o sut y mae penderfyniadau gwario Llywodraeth Cymru yn cefnogi mesurau ataliol (neu nad ydynt yn gwneud hynny).

Mewn ymateb, gwnaethoch dderbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, gan nodi:

> *"Er ein bod wedi ymrwymo i wella sut rydym yn gwneud ein penderfyniadau gwariant ac yn amlinellu eu heffeithiau, rhaid i ddull o'r fath fod yn gymesur.*
>
> *Rydym eisoes yn cyhoeddi cyfres o ddogfennau fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft, sy'n cynnwys ymatebion Gweinidogion unigol i'w priod bwyllgorau craffu yn y Senedd, ac sy'n rhoi cyfrif manylach ar sut y mae penderfyniadau'r Gyllideb Ddrafft wedi effeithio ar grwpiau gwahanol neu wedi ystyried materion megis atal. Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn parhau i amlinellu'r dystiolaeth gyd-destunol sydd wedi cefnogi ein penderfyniadau gwariant.*
>
> *Rydym yn agored i ystyried newidiadau pellach y gellid eu gwneud fel rhan o waith y Cynllun Gwella'r Gyllideb."*

### Ansawdd y dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch ansawdd y dystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda rhai Cadeiryddion yn dweud nad oedd cyflwyniadau gweinidogion mor gynhwysfawr ag yr oeddent mewn blynyddoedd blaenorol. Galwodd eraill hefyd ar adrannau Llywodraeth Cymru i ymateb yn llawn ac yn fanwl i gais ysgrifenedig pob Pwyllgor am dystiolaeth.

### Ymateb i argymhellion cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol

Yn olaf, roedd nifer o’r Pwyllgorau yn siomedig nad oedd Llywodraeth Cymru yn gallu ymateb i argymhellion y Gyllideb Ddrafft ddigon cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol. Roedd rhai Pwyllgorau yn teimlo hefyd y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i egluro’r gwahaniaethau rhwng y Gyllideb Ddrafft a’r Gyllideb Derfynol cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol.

Rydym yn croesawu eich parodrwydd i ymgysylltu â’r Pwyllgor ar y materion hyn a’r ffaith eich bod yn agored i drafod newidiadau i’r ffordd y caiff gwybodaeth ei chyflwyno ochr yn ochr â’r Gyllideb Ddrafft.

Gofynnwn felly i’r pryderon hyn gael eu hystyried cyn cylch cyllideb 2024-25.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Gadeiryddion Pwyllgorau’r Senedd a grybwyllwyd uchod.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu’n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JJ/1462/23

Rachel Maclean MP
Minister of State for Housing and Planning
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

27 June 2023

Dear Rachel,

Thank you for your letter of 17 May, in relation to the introduction to Parliament of the Renters (Reform) Bill.

Your letter outlines the areas where the Bill has an effect on Wales, and your view that the consent of the Senedd is required for the changes it makes to Part 7 of the Housing Act 1996. On face value it does appear that the saving by SI 2015/1272 of the homelessness regime outlined in Part 7 could mean that the Renters (Reform) Bill proposes provision within the legislative competence of the Senedd, and I am grateful to you for drawing this to my attention. However, more detailed consideration by my officials has concluded that, in particular as a consequence of the implementation of the Renting Homes (Wales) Act 2016 on 1 December 2022, which abolished assured tenancies in Wales, this is not the case.

I trust that you will accept my analysis of the devolved competence in this area, and that you will therefore update your Bill materials to reflect our revised position on this point.

Yours sincerely

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/RE/0660/23(2)

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
Swyddfa.breifat@senedd.cymru

30 Mehefin 2023

Annwyl Huw,

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ardrethu Annomestig**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'r argymhellion a nodir yn adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig (y Bil). Gofynnodd y Pwyllgor am ymateb i Argymhelliad 2 o fewn 10 diwrnod gwaith. Hoffwn achub ar y cyfle i ymateb i argymhellion eraill y Pwyllgor ar yr un pryd.

***Argymhelliad 1: Rydym o'r farn bod y cymalau o'r Bil a'r Atodlen i'r Bil a nodir yn y Memorandwm o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y'i disgrifir yn Rheol Sefydlog 29, a bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer o ganlyniad i hynny.***

Rwy'n croesawu cadarnhad y Pwyllgor ei fod yn cytuno â dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y bydd angen cael cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

***Argymhelliad 2: Dylai'r Gweinidog egluro a rhoi rhagor o fanylion i'r Senedd ynghylch pam y mae Llywodraeth Cymru wedi newid ei safbwynt fel ei bod bellach yn fodlon ar y pwerau dirprwyedig yng nghymal 13 ac ym mharagraffau 49 a 50 o'r Atodlen i'r Bil. Dylai'r Gweinidog ddarparu'r eglurhad a'r manylion hyn o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, neu dylai gwybodaeth o'r fath gael ei nodi yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol nesaf a gyflwynir gerbron y Senedd, pa un bynnag sydd gynharaf.***

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gyntaf, hoffwn egluro nad yw Llywodraeth Cymru wedi newid ei safbwynt. Ar adeg cyhoeddi'r Memorandwm, roeddem yn ystyried ein safbwynt, fel y nodwyd yn y Memorandwm.

Mae'r mater hwn yn gymhleth, gyda maes polisi datganoledig a swyddogaethau awdurdod a gedwir yn ôl sy'n gysylltiedig yn fwriadol, er mwyn galluogi rhywbeth newydd ac arloesol. Dim ond Cyllid a Thollau ei Fawrhydi (CThEF) sy'n gallu darparu'r rhaglen *Digideiddio Ardrethi Busnes* i Gymru, am fod y rhaglen yn dibynnu ar rannu a chysylltu gwybodaeth a gedwir gan CThEF am ardrethi nad ydynt wedi'u datganoli, yn ogystal â gwybodaeth am ardrethi annomestig. O ganlyniad, byddai unrhyw is-ddeddfwriaeth a gaiff ei gwneud o dan y pwerau sydd wedi'u dirprwyo i Gomisiynwyr CThEF yn cael effaith uniongyrchol ar y swyddogaethau a roddir gan y Bil i CThEF, ac yn newid y gofynion a roddir ar dalwyr ardrethi annomestig. Mae hyn yn golygu bod pob un o'r opsiynau i sicrhau y gellir darparu'r rhaglen Digideiddio Ardrethi Busnes yng Nghymru yn galw am gyfaddawd, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

At ei gilydd, o ystyried y gwahanol ffactorau hyn a chyd-destun y darpariaethau penodol, rwyf wedi casglu bod y pwerau dirprwyedig a'r ddyletswydd i ymgynghori â Gweinidogion Cymru yn briodol er mwyn hwyluso'r gwaith o weinyddu'r system Digideiddio Ardrethi Busnes, y mae angen iddo weithredu mewn modd cyson ledled Cymru a Lloegr. Mae'r pwerau hyn yn gyfyngedig ac nid oes angen eu harfer er mwyn rhoi'r fframwaith deddfwriaethol a amlinellir yn y Bil ar waith. Dim ond pan ystyrir bod angen gwneud newid gweinyddol perthnasol er mwyn sicrhau bod CThEF yn rhedeg y rhaglen Digideiddio Ardrethi Busnes yn effeithiol y byddant yn cael eu defnyddio.

Ni ragwelir y bydd angen, nac awydd, i ddeddfu'n wahanol o dan y pwerau dirprwyedig mewn perthynas â Chymru. At hynny, byddai'r posibilrwydd o ddefnyddio dull amgen yn arwain at risg na fyddai'r system yn gweithredu mewn modd effeithiol na chyson. Drwy weithredu fel hyn, gellir sicrhau y bydd modd cyflawni nodau'r rhaglen Digideiddio Ardrethi Busnes a gwireddu'r manteision a fwriedir yng Nghymru.

***Argymhelliad 3: Dylai'r Gweinidog gadarnhau a oedd Llywodraeth Cymru yn chwilio am opsiynau i ddefnyddio deddfwriaeth a gyflwynwyd i'r Senedd i geisio newid y weithdrefn graffu ar gyfer rheoliadau a wnaed o dan baragraff 5(13A) yn Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.***

Gallaf gadarnhau, wrth bennu'r ffordd orau ymlaen, fod Llywodraeth Cymru wedi gweld nad oedd cyfrwng deddfwriaethol Seneddol a fyddai'n addas i fynd i'r afael â'r mater hwn o fewn yr un terfyn amser, ac na fyddai modd creu cyfrwng o'r fath heb gael effaith niweidiol anghymesur ar ein rhaglen ddeddfwriaethol ehangach.

***Argymhelliad 4: Dylai'r Gweinidog nodi'n fanwl, gan ddefnyddio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2022 a Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2023 fel enghreifftiau ymarferol, yr heriau ymarferol a'r effeithiau negyddol o ran gwaith craffu'r Senedd yn sgil y weithdrefn bresennol ar gyfer gwneud rheoliadau o dan baragraff 5(13A) yn Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.***

Hoffwn gadarnhau yn gyntaf fod y Pwyllgor yn gywir nad oedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") yn cyflwyno nac yn newid y weithdrefn hon. Yn lle hynny, fe gadwodd y weithdrefn a oedd eisoes wedi ei sefydlu, sy'n gyson â'r weithdrefn sy'n gymwys yn Lloegr. Mae sylw wedi cael ei dynnu at yr heriau ymarferol a'r cyfyngiadau o ran amseru ers i Ddeddf 2021 gael ei datblygu a'i chyflwyno (ar 18 Tachwedd 2019). Mae hefyd yn wir na fydd cyfyngiadau o'r fath ar y pŵer cyfatebol sydd gan Lywodraeth y DU bellach, yn sgil y Bil. Mae hyn yn berthnasol am fod penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU ar osod y lluosydd yn ei Datganiadau Hydref, ac unrhyw gyllid canlyniadol perthnasol, yn arwain at oblygiadau ar gyfer ystyriaethau polisi a chyllidebu Llywodraeth Cymru. Os bydd cyfyngiadau ar ein gallu i arfer y pŵer hwn nad ydynt yn effeithio ar Lywodraeth y DU yn yr un modd, yng nghyd-destun y rhyngddibyniaethau hyn ac amserlen dynn ar gyfer gwneud rheoliadau, gallai hyn beryglu'r defnydd effeithiol ohono. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Datganiadau Hydref Llywodraeth y DU wedi bod yn cael eu gwneud braidd yn hwyr yng nghylch y gyllideb: gallai hyn gulhau'r amser sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y defnydd o gyllid canlyniadol ac ar gyfer gwneud rheoliadau.

Mae'r cyfyngiadau presennol ar amser yn creu cysylltiad rhwng rheoliadau a chyfrifiadau ar y lluosydd, a gwaith y Senedd i ystyried yr adroddiad cyllid llywodraeth leol am y flwyddyn. Nid yw rheoliadau'n effeithiol oni bai eu bod yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd *cyn* iddi gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol am y flwyddyn, neu cyn 1 Mawrth (pa un bynnag sydd gynharaf). Fodd bynnag, nid yw cyfrifiad terfynol y lluosydd gan Weinidogion Cymru yn ddilys oni bai ei fod yn cael ei wneud *ar ôl* i'r Senedd gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol neu ar ôl 1 Mawrth. Mae'r angen hwn i ddibynnu ar pryd y mae'r Senedd yn ystyried yr adroddiadau cyllid llywodraeth leol yn creu "targed symudol" mewn cysylltiad â gosod y lluosydd.

Os yw amserlen y Senedd yn pennu y bydd yn ystyried yr adroddiad cyllid llywodraeth leol yn fuan ar ôl Datganiad Hydref Llywodraeth y DU a Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru (naill ai am fod y cyllidebau'n hwyrach na fel arfer, neu fod yr adroddiad yn gynharach), bydd ond ychydig iawn o amser i lunio rheoliadau, ac mae'n bosibl bydd yr amser craffu yn fyrrach o ganlyniad i hynny. Tynnwyd sylw at y posibilrwydd y byddai canlyniad o'r fath yn codi mewn cysylltiad â'r rheoliadau a effeithiodd ar osod y lluosydd ar gyfer 2020-21. Yn yr achos hwn, trefnwyd yn wreiddiol y byddai'r Senedd yn ystyried yr adroddiad cyllid llywodraeth leol ar 19 Rhagfyr 2019. Felly mae'r rheoliadau hyn yn enghraifft well o sut y gallai'r mater penodol y cyfeirir ato yn yr argymhelliad hwn godi. Ym mis Rhagfyr 2019, roedd Deddf 2021 eisoes wedi cael ei gyflwyno gerbron y Senedd. Dylid nodi bod Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd ar 25 Tachwedd 2019 wedi arwain yn y pen draw at oedi'r amser ar gyfer gwaith craffu'r Senedd ar yr adroddiad cyllid llywodraeth leol a rheoliadau'r lluosydd.

Fel arall, os yw amserlen y Senedd yn pennu y bydd yn ystyried yr adroddiad cyllid llywodraeth leol yn nes o lawer at ddechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi, gall hyn ganiatáu ddigon o amser ar gyfer llunio a chraffu ar reoliadau cyn y dyddiad hwnnw. Fodd bynnag, am na ellir cyfrifo'r lluosydd terfynol tan ar ôl y dyddiad hwnnw (neu 1 Mawrth os yw'n gynharach), mae hyn yn arwain at oedi diangen o ran rhoi eglurder i awdurdodau bilio a thalwyr ardrethi yng Nghymru. Gwelwyd yr effaith hon ar y rheoliadau penodol y cyfeirir atynt yn yr argymhelliad hwn, am fod y Senedd wedi ystyried yr adroddiadau cyllid llywodraeth leol perthnasol ar 1 Mawrth 2022 a 28 Chwefror 2023.

Bydd y newidiadau arfaethedig yn sicrhau bod y Senedd yn cael cyfle cyson i wneud gwaith craffu, cyn i unrhyw reoliadau gael eu gwneud, ac yn lleihau'r risg o oedi o ran bilio. Bydd awdurdodau lleol a thalwyr ardrethi yng Nghymru yn cael eglurder mor gynnar â phosibl ac ni fyddant o dan anfantais o'u cymharu â'u cymheiriaid yn Lloegr.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei ystyriaeth fanwl o'r Memorandwm a gobeithiaf fod yr ymatebion a roddwyd gennyf i'r argymhellion yn darparu'r eglurder pellach y gofynnwyd amdano.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, ac i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a'r Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

CLLC WLGA

# WLGA Response
# Local Government and Housing
# Additional Information

**WLGA representatives agreed to provide more information on the extent job sharing is being utilised by local authorities.**

Following the committee hearing on the 15th, the WLGA has written to Heads of Democratic services. The following authorities are using job shares within the council's executive.

- Cardiff Council (2 Shared portfolios; Social Services and Tackling Poverty, Equality and Public Health)
- Newport City Council (1 Shared Portfolio; Social Services)
- Swansea Council (1 Shared Portfolio; Community)
- Powys (1 Shared Portfolio; Future Generations)
- Flintshire (1 Shared Portfolio: Deputy Leader)

Where job sharing within the executive has been used, feedback has been generally positive. However some issues have been raised, such as the need to ensure job-sharing members of the executive are aligned when voting within Cabinet.

It has also noted that for smaller councils, job sharing can place an increased burden on scrutiny committees, given that members of the executive cannot also be members of scrutiny committees. This has been highlighted as a particular challenge given the enhanced role of scrutiny following the commencement of the Local Government and Elections Act.

**WLGA representatives agreed to provide additional detail on the desk-based review of diversity across local authorities undertaken by the WLGA following the local government election in 2022.**

Please note that a spreadsheet outlining data of internal research exercise conducted by WLGA following the elections.

If you have further questions relating to this exercise, please contact Joseph Lewis.

**The Committee agreed to write to seek the witnesses views on guidance, training and support for councillors to deal with online intimidation, harassment and abuse.**

Working in partnership with the LGA, NILGA and COSLA, the WLGA has been involved with a programme of work entitled Civility in Public Life", which is primarily aimed at:

- articulating good standards for anyone engaging in public and political discourse
- understand the scale and impact of intimidation and abusive behaviour on our membership organisations, and develop recommendations for achieving positive debate and public decision-making on a local level

- to support our members and all democratically elected local representatives in addressing intimidation and abuse, so they deliver the best on behalf of their communities

The WLGA continues to work across the four nations to deliver a coordinated response on this issue, and has coproduced a number of shared handbook to support councillors in how to deal with online abuse and harassment. In addition to this, the WLGA updated its range of councillor handbooks, and also developed a suite of e-learning modules which included modules on Social Media Awareness, these have been used by councils to complement their own member induction programmes.

Through the WLGA, the 22 leaders agreed to adopt a Fair Campaigns Pledge ahead of the 2022 local elections which was adopted and implemented by political group leaders locally. The Fair Campaigns pledges commits candidates to running a fair and respectful election campaign which is based on positive campaigning and merit, rather than personal attacks and smears against individuals.

Feedback from WLGA officer networks suggests that while the pledge represents a positive step forward, the efficacy of this campaign remains unclear, this may be owing to the non-binding nature of the pledge, but also because of candidates needing further guidance on implementing the pledge in practice.

Delivery of the ambitions of the pledge was also made more challenging by the high number of independent candidates at local elections, with pledges being organised through political parties, and that a councillor’s code of conduct is not applicable to candidates who have not yet been elected.

The WLGA also facilitates meetings of the Standards Committee Chairs Forum. The Forum provides an opportunity for Chairs of Standards Committees to discuss members conduct issues and standards of behaviour across Wales.

| | | 2022-23 | 2022-23 | 2021-22 | 2021-22 | 2021-22 | 2021-22 | 2021-22 | | New Term | New Term | New Term | New Term | New Term | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Councillors** | **No. of Women Cllrs** | **% Women Cllrs** | **No of Women Leaders** | **No of Women Deputies** | **No of Women Cabinet Members** | **Total Number of Cabinet Members** | **% of Cabinet Members women** | | **No of Women Leaders** | **No of Women Deputies** | **No of Women Cabinet Members** | **Total Number of Cabinet Members** | **% of Cabinet Members women** | | |
| Blaenau Gwent | 33 | 10 | 30.03% | | | 2 | 5 | 40 | | 0 | 1 | 2 | 5 | 40 | Blaenau Gwent | |
| Bridgend | 51 | 14 | 27.40% | | | 2 | 6 | 33 | | 0 | 1 | 2 | 8 | 25 | Bridgend | |
| Caerphilly | 69 | 26 | 37.68% | 1 | | 2 | 8 | 25 | | 0 | 0 | 4 | 9 | 44 | Caerphilly | |
| Cardiff | 79 | 33 | 41.77% | | 1 | 3 | 10 | 30 | | 0 | 1 | 5 | 12 | 42 | Cardiff | includes 6 job shares |
| Carmarthenshire | 75 | 25 | 33.33% | | 1 | 4 | 9 | 44 | | 0 | 1 | 3 | 10 | 30 | Carmarthenshire | |
| Ceredigion | 38 | 9 | 23.68% | 1 | | 3 | 8 | 38 | | 0 | 0 | 1 | 8 | 13 | Ceredigion | |
| Conwy | 55 | 23 | 41.80% | | | 4 | 10 | 40 | | 0 | 1 | 4 | 10 | 40 | Conwy | |
| Denbighshire | 48 | 20 | 41.66% | | | 1 | 8 | 13 | | 0 | 1 | 5 | 9 | 56 | Denbighshire | |
| Flintshire | 67 | 24 | 35.80% | | 1 | 1 | 7 | 14 | | 0 | 1 | 1 | 8 | 13 | Flintshire | |
| Gwynedd | 69 | 24 | 34.78% | | | 2 | 10 | 20 | | 0 | 1 | 4 | 10 | 40 | Gwynedd | |
| Merthyr | 30 | 8 | 26.66% | 1 | | 2 | 5 | 40 | | 0 | 0 | 3 | 6 | 50 | Merthyr | |
| Monmouthshire | 46 | 24 | 52.17% | | 1 | 4 | 8 | 50 | | 1 | 0 | 5 | 8 | 63 | Monmouthshire | Note: Monmouthshire also recorded 1 non-binary member of cabinet. |
| Neath Port Talbot | 60 | 23 | 38.33% | | 1 | 3 | 9 | 33 | | 0 | 0 | 3 | 10 | 30 | Neath Port Talbot | |
| Newport | 51 | 16 | 31.37% | 1 | | 3 | 8 | 38 | | 1 | 1 | 5 | 9 | 56 | Newport | includes 2 job shares as 0.5 each |
| Pembrokeshire | 60 | 13 | 21.66% | | | 2 | 10 | 20 | | 0 | 0 | 2 | 9 | 22 | Pembrokeshire | |
| Powys | 68 | 22 | 32.35% | 1 | | 5 | 7 | 71 | | 0 | 0 | 3 | 11 | 27 | Powys | includes 2 job shares as 0.5 each |
| RCT | 75 | 35 | 46.66% | | 1 | 4 | 9 | 44 | | 0 | 1 | 4 | 9 | 44 | RCT | |
| Swansea | 75 | 31 | 41.33% | | 1 | 2 | 10 | 20 | | 0 | 1 | 4 | 11 | 36 | Swansea | |
| Torfaen | 40 | 17 | 42.50% | | | 4 | 8 | 50 | | 0 | 0 | 4 | 8 | 50 | Torfaen | |
| Vale | 54 | 27 | 50.00% | | 1 | 3 | 7 | 43 | | 1 | 1 | 4 | 8 | 50 | Vale | |
| Wrexham | 56 | 15 | 26.78% | | | 2 | 10 | 20 | | 0 | 0 | 1 | 10 | 10 | Wrexham | |
| Ynys Mon | 34 | 9 | 26.47% | 1 | | 1 | 9 | 11 | | 1 | 0 | 2 | 9 | 22 | Ynys Mon | |
| **Total** | **1233** | **448** | **36.33%** | 6 | 8 | 59 | 181 | 33 | | 4 | 12 | 71 | 197 | 36 | | |
| | | | **% Women Cllrs** | **No of Women Leaders** | **No of Women Deputies** | **No of Women Cabinet Members** | **Total Number of Cabinet Members** | **% of Cabinet Members women** | | **No of Women Leaders** | **No of Women Deputies** | **No of Women Cabinet Members** | **Total Number of Cabinet Members** | **% of Cabinet Members women** | **Total** | |

Y Pwyllgor Cyllid
—
Finance Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Rebecca Evans AS,
Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

7 Gorffennaf 2023

Amserlen Ddrafft Gyllideb 2024-25

Annwyl Rebecca,

Nododd y Pwyllgor eich amserlen arfaethedig ar gyfer cyllideb 2024-25 yn ei gyfarfod ar 6 Gorffennaf 2023.

Rydym o'r farn bod y dull hwn yn hynod siomedig: Fel Pwyllgor rydym wedi galw'n rheolaidd am gael digon o amser i graffu ar gynigion cyllidebol Llywodraeth Cymru, ac i hynny fod yn unol â Phrotocol Proses y Gyllideb ('y Protocol'), y cytunwyd arno ar sail drawsbleidiol yn 2017.

Rydym wedi ysgrifennu atoch sawl gwaith ynghylch yr anawsterau ymarferol y mae byrhau amserlenni yn eu peri i Bwyllgorau wrth gyflawni eu swyddogaethau craffu, yn ogystal â'r pwysau y mae'n ei roi ar randdeiliaid sy'n dymuno cyflwyno tystiolaeth ac ymgysylltu â'n gwaith, yn enwedig pan fydd tair wythnos o'r cyfnod hwnnw yn disgyn dros doriad y Nadolig.

Yn fwyaf diweddar, ysgrifennais atoch ar 23 Mehefin 2023 yn nodi'r pryderon a fynegwyd gan y mwyafrif helaeth o Gadeiryddion Pwyllgorau ynghylch amseroldeb y broses gyllidebol a'r diffyg amser sydd ar gael ar gyfer craffu priodol. Rydym felly wedi'n digalonni na chafodd y safbwyntiau hyn eu hadlewyrchu pan gynigiwyd yr amserlen hon. Ar ben hynny, er ein bod wedi trafod yn gryno amserlen y gyllideb tua diwedd ein cyfarfod ar 20 Mehefin, ni wnaethom drafod dyddiadau penodol, fel y nodwyd yn eich llythyr, ac nid oedd cyfle i mi godi pryderon o ystyried y diffyg gwybodaeth a rannwyd bryd hynny ynghylch eich cynigion.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

## Rhesymau annigonol dros oedi

Mae paragraff 11 o'r Protocol yn nodi "ni fydd cyllideb/blwyddyn ariannol yn "arferol" pan fydd ansicrwydd sylweddol o ran sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol". Mae'n ychwanegu:

> *"Er nad yw hon yn rhestr hollgynhwysol, byddai enghreifftiau'n cynnwys pan nad yw Llywodraeth y DU wedi darparu ffigurau'r gyllideb ar gyfer y dyfodol; ceir digwyddiad cyllidol y DU fel yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant neu Gyllideb Frys; neu newid sylweddol yn y rhagolygon cyllidol cyffredinol fel sioc economaidd neu newidiadau'n effeithio ar bolisi treth y DU."*

Ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf, rydym wedi derbyn y dadleuon bod lefelau sylweddol o ansicrwydd cyllido yn arwain at oedi cyn gosod y gyllideb ddrafft. Er ein bod yn cydnabod nad yw Canghellor y Trysorlys wedi cyhoeddi dyddiad y digwyddiad cyllidol yn yr hydref eto, nid ydym yn ystyried hyn yn rheswm cryf ynddo'i hun i oedi rhag cyhoeddi cynigion cyllidebol Llywodraeth Cymru ac nid ydym yn cytuno mai dyma'r unig ddewis doeth sydd ar gael i chi.

Fel y gwnaethoch nodi, mae dyraniadau cyllidebol dangosol eisoes ar gael i Lywodraeth Cymru, ac er ein bod yn derbyn bod pwysau chwyddiant yn parhau'n uchel, nid ydynt, yn anffodus, yn syndod ac nid ydynt, yn ein barn ni, yn creu "llawer o ansicrwydd" yn eich sefyllfa gyllido a bod angen gwyro oddi wrth y broses 'arferol' a amlinellir ym mhrotocol y gyllideb.

Nid ydym ychwaith yn derbyn bod yr oedi yn gyfan gwbl o ganlyniad i faterion sydd y tu allan i'ch rheolaeth. Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am y gyllideb, mae gennych ddisgresiwn sylweddol i benderfynu pryd y cyhoeddir cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru sydd, yn eu tro, yn pennu faint o amser sydd gan Bwyllgorau'r Senedd i wneud y gwaith craffu gofynnol.

Fel y gwyddoch, dyma'r bumed flwyddyn yn olynol nad yw'r broses dau gyfnod a nodir yn y Protocol wedi'i dilyn ac mae'r cais i ohirio proses y gyllideb eto eleni, yn awgrymu mai prin yw'r amgylchiadau y gellid eu hystyried yn flwyddyn "arferol".

Bwriad y protocol oedd caniatáu i'r Pwyllgor Cyllid ymgymryd â rôl oruchwylio drwy ganiatáu rhagor o amser i bwyllgorau polisi wneud gwaith craffu a'u galluogi i gymryd rhagor o dystiolaeth gan randdeiliaid.

Mae eich parodrwydd i osgoi dilyn y broses hon unwaith eto yn cwestiynu eich ymrwymiad i'r arferion hyn y cytunwyd arnynt, o ystyried nad yw amseriad craffu ar y gyllideb yn y blynyddoedd diwethaf wedi gwneud hyn yn bosibl.

Diffyg ymgynghori

Rydym hefyd yn nodi eich bod wedi ymgynghori â’r Pwyllgor ar eich penderfyniad i ohirio cyhoeddi Cyllideb Ddrafft 2023-24 y llynedd. Mae’n resyn felly na chafodd dull tebyg ei fabwysiadu eto.

Mewn blynyddoedd pan fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried gohirio cyhoeddi’r Gyllideb Ddrafft ac yn osgoi’r broses dau gyfnod a amlinellir yn y Protocol, mae’r Pwyllgor yn disgwyl trafodaeth aeddfed ac ymgynghoriad ystyrlon ar faterion o’r fath ac mae peidio â gwneud hynny yn bwrw amheuaeth ynghylch yr ymrwymiadau a wnaethoch yn flaenorol i weithio’n adeiladol ac mewn partneriaeth i wella ein prosesau’r gyllideb.

Y camau nesaf

Rwy’n croesawu eich parodrwydd i ailedrych ar ddyddiadau cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft pe bai cyhoeddiad y Canghellor ynghylch dyddiadau digwyddiad cyllidol yr hydref yn ddigon cynnar i ganiatáu amser ychwanegol ar gyfer ei pharatoi a chraffu arni.

Byddwn yn cadw llygad barcud ar y datblygiadau hyn ac yn gobeithio y bydd eglurder pellach ynghylch amseru'r materion hyn yn arwain at ragor o amser i graffu ar eich cynigion cyllideb cyn gynted â phosibl yn nhymor yr hydref.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at y Trefnydd a Chadeiryddion Pwyllgorau’r Senedd, o ystyried ei effaith ar eu rhaglenni gwaith ac yn sgil y pryderon a’r sylwadau a fynegwyd yn flaenorol ar y materion hyn.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths MS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu’n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon